# Dylan yn dysgu i helpu a chynilo

Mae yna dri pheth y mae angen eu gwybod am Dylan. Mae'n garedig, mae wrth ei fodd yn dysgu, ac mae'n ddraig. Mae Dylan yn edrych allan drwy'i ffenest ac yn meddwl meddyliau mawr iawn. Mae meddyliau mawr iawn yn arwain at lawer o gwestiynau ac mae ffrindiau Dylan yn ei helpu i ateb y cwestiynau hynny.

Mae gan Dylan lawer o ffrindiau, sy'n byw yn y pentref cyfagos. Pan roedd Dylan yn ceisio deall beth yw arian ac o ble mae'n dod, fe wnaeth ei ffrind Rhiannon ei helpu. Nawr mae'n gwybod popeth am arian ac mae ganddo swydd hyd yn oed. Mae Dylan yn helpu i gynnau'r goelcerth ar lawnt y pentref pan fydd gŵyl neu barti. Mae gofalu am dân yn un o sgiliau Dylan, oherwydd ei fod yn ddraig.

Mae Dylan yn edrych o amgylch ei ystafell ar yr holl bethau newydd y mae wedi eu prynu.

"Rwyf i wedi ennill gymaint o arian," meddai wrtho'i hun "rwyf i wedi prynu popeth roeddwn i ei eisiau." Mae'n edrych ar y pentwr o arian yn gollwng o'i gadw-mi-gei . "Beth ydw i'n ei wneud gyda gweddill yr arian hwn?" mae'n gofyn iddo'i hun.

Mae'n ddiwrnod oer a chlir, felly mae Dylan yn penderfynu hedfan draw i'r pentref i weld rhai o'i ffrindiau. Wrth iddo gyrraedd y pentref, mae'n gweld ei ffrind Rhiannon yn cerdded i lawr y stryd.

"Helo Rhiannon." gwaedda Dylan.

"Wel helo Dylan. Hyfryd iawn dy weld di!" ateba Rhiannon.

Mae Dylan yn gwenu. "Roeddwn i ar fin dod i dy weld yn dy siop." meddai Dylan.

"Nid wyf i'n gweithio heddiw" ateba Rhiannon. "Dyma fy niwrnod bant. Mae gen i ychydig o bethau y mae angen i mi eu gwneud. Hoffet ti ymuno â mi?" mae hi'n gofyn.

"O, plîs." meddai Dylan yn eiddgar. "Felly, ble ydym ni'n mynd?" mae'n gofyn yn gyffro i gyd.

"Yn gyntaf, mae angen i mi ymweld â'r Gymdeithas Adeiladu." esbonia Rhiannon. "Mae gen i gyfrif cynilo gyda'r Gymdeithas Adeiladu, ac rwy'n mynd i adneuo rhywfaint o fy arian"

"Wwwww!" gwichia Dylan, wedi cyffroi wrth sôn am rywbeth newydd i ddysgu amdano. "Beth yw Cymdeithas Adeiladu a beth yw cyfrif cynilo?"

Wrth iddyn nhw gerdded i'r Gymdeithas Adeiladu, mae Rhiannon yn dweud wrth Dylan am gynilion. "Rwy'n siŵr dy fod di'n cofio, Dylan, ein bod ni'n defnyddio arian i brynu pethau?"

"Wrth gwrs," ateba Dylan "Rwyf i wedi prynu llawer o bethau i fy hun gyda fy arian."

"Wel," esbonia Rhiannon "weithiau rydym ni'n prynu'r pethau sydd eu hangen arnom ni, a rhai o'r pethau rydym ni eu heisiau ac mae dal arian ar ôl gennym ni. Mae'n syniad da rhoi'r arian hwnnw rywle diogel a'i gynilo. Gallwn ni ei gynilo ar gyfer y dyfodol."

Mae Dylan yn parhau i gerdded ochr yn ochr â Rhiannon wrth iddo feddwl am hyn. Yn y diwedd, mae'n gofyn "Ond na fydd gennym ni arian arall yn y dyfodol? Pam mae angen i ni gynilo'r arian hwn pan allwn ni gael mwy o arian?"

"Mae hwnnw'n gwestiwn da iawn Dylan ac mae dau ateb da iawn." ateba Rhiannon. (1)

"Yn gyntaf, os ydym ni'n cynilo ein harian, bydd y cyfanswm yn tyfu, a gallwn ni brynu pethau drytach. Un diwrnod hoffwn i brynu cwch. Os byddaf i'n dal i gynilo fy arian, un diwrnod efallai bydd gen i ddigon i brynu fy nghwch a hwylio o amgylch y byd."

Mae Dylan yn meddwl bod syniad Rhiannon yn swnio'n wych. Byddai wrth ei fodd yn teithio'r byd un diwrnod hefyd. "Mae hynny yn rheswm da iawn dros gynilo dy arian," cytuna Dylan.

"Mae'r rheswm arall yn bwysicach byth." ychwanega Rhiannon. "Nid oes neb yn gwybod sut gallai pethau newid yn y dyfodol. Rwy'n gallu ennill arian ar hyn o bryd, ond efallai fydda i ddim yn gallu ennill arian yn y dyfodol. Os bydd hynny'n digwydd, bydd gen i fy nghynilion i brynu'r pethau sydd eu hangen arnaf i."

Mae Dylan yn meddwl yn ofalus iawn am hyn, yr holl ffordd i'r gymdeithas adeiladu. Wrth iddyn nhw gyrraedd, mae dyn cyfeillgar, mewn gwisg smart iawn, yn eu croesawu i'r gangen. (2)

Mae'r dyn cyfeillgar yn cyflwyno ei hun. "Fy enw i yw James." meddai. "Sut alla i'ch helpu chi heddiw?"

Mae Rhiannon yn ateb "Hoffwn i adneuo rhywfaint o arian i fy nghyfrif cynilo, os gwelwch yn dda?"

"Wrth gwrs," meddai James "Gall Susan, wrth y cownter, eich helpu chi."

Mae Rhiannon a Dylan yn mynd at y cownter. Mae Rhiannon yn tynnu llyfr bach o'i bag ac yn ei ddangos i Dylan. "Pryd bynnag y bydda i'n adneuo neu'n codi arian o fy nghyfrif, mae'n rhaid i mi ei ysgrifennu yn y llyfr bach hwn. Mae hwn yn dweud wrthyf i faint o arian rwyf i wedi'i gynilo. Rwy'n ysgrifennu'r dyddiad, faint o arian rwyf i'n ei adneuo neu'n ei godi, a fy malans newydd. Y balans yw'r cyfanswm."

"Ie, dyna fe," cytuna Susan, yn eistedd y tu ôl i'r cownter â gwên fawr. "Pan fydd Rhiannon yn adneuo arian i'w chyfrif, mae ei balans yn cynyddu. Pan fydd hi'n codi arian, mae ei balans yn lleihau." (3)

Wrth i Susan helpu Rhiannon i adneuo ei harian, mae Dylan yn crwydro draw i James. "Esgusodwch fi," meddai Dylan wrth James "a gaf i gyfrif cynilo?"

"Wrth gwrs y cei," ateba James â gwên "Gallaf i dy helpu."

Mae Dylan yn eistedd gyferbyn â James wrth iddo deipio ar gyfrifiadur. Mae Dylan yn sylwi ar lawer o bosteri o dai o amgylch yr ystafell. Mae gan bob un ohonyn nhw y gair 'morgais'. "Beth yw morgais?" meddylia Dylan yn uchel.

"Mae morgais yn ffordd o dalu am dŷ," esbonia James, gan edrych i fyny o'r cyfrifiadur. "Mae tai yn ddrud iawn, ac nid oes gan y rhan fwyaf o bobl ddigon o arian i brynu un. Yn lle hynny, maen nhw'n cynilo cymaint ag y gallan nhw, ac maen nhw'n benthyg y gweddill gennym ni. Math o fenthyciad yw morgais." (4)

"Os ydw i eisiau prynu tŷ pan fydda i'n tyfu i fyny, bydd angen i mi gael morgais?" gofynna Dylan.

"Bydd," ateba James. "Byddet ti'n dewis tŷ roeddet ti eisiau ei brynu, yn gweld faint o arian roeddet ti wedi'i gynilo, ac yna yn benthyg y gweddill i brynu'r tŷ. Byddet ti'n ad-dalu ychydig o'r morgais bob mis tan iddo gael ei dalu yn llawn," ychwanega James wrth iddo orffen teipio. "A dyna dy gyfrif wedi ei agor."

"Diolch. Rwy'n gyffro i gyd am gael fy nghyfrif cynilo fy hun. Efallai byddaf i'n cynilo ar gyfer cartref newydd" awgryma Dylan. Mae Dylan yn neidio i lawr o'r gadair i ddweud ei newyddion cyffrous wrth Rhiannon. (5)

Mae James a Susan wedi bod yn gyfeillgar iawn ac maen nhw wedi helpu yn fawr. Mae Dylan wedi agor cyfrif cynilo ac wedi adneuo £5. Mae ganddo lyfr bach, yn union fel Rhiannon, a bydd yn rhaid iddo'i gadw'n ddiogel gartref.

Mae Rhiannon a Dylan yn ffarwelio â'u ffrindiau newydd ac yn parhau ar hyd y stryd. "Mae gen i un peth arall i'w wneud," meddai Rhiannon wrth Dylan. "Mae'n rhaid i mi alw i adeilad, dros y ffordd a gwneud rhodd."

Mae Dylan yn edrych draw ar yr adeilad ac yn sylwi ar arwydd mawr lliwgar â'r geiriau 'Yma i helpu' gyda llun o wynebau'n gwenu. "Beth yw'r lle hwn?" gofynna Dylan i Rhiannon. "Ai siop yw hi?"

"Na, Dylan, mae'n elusen," ateba Rhiannon. "Grŵp o bobl sy'n gweithio i helpu'r rhai mewn angen yw elusen. Mae'r elusen hon yn helpu pobl sydd wedi mynd yn rhy sâl i weithio ac ennill arian. Mae'r elusen yn rhoi bwyd iddyn nhw a phethau eraill sydd eu hangen arnyn nhw. Rwy'n rhoi rywfaint o fy arian iddyn nhw i helpu i dalu am y pethau hynny. Mae'n bwysig helpu'r rhai nad ydyn nhw mor lwcus â ni, os gallwn ni."

Fe wnaeth hyn i Dylan fod yn eithaf trist. Nid oedd erioed wedi ystyried efallai na fyddai gan bobl eraill beth sydd ei angen arnyn nhw. Roedd yn teimlo'n wael ei fod wedi prynu cymaint o bethau hyfryd iddo'i hun ac nad oedd yn sylweddoli nad oes gan rai pobl bopeth sydd ei angen arnyn nhw. (6) Mae Rhiannon yn sylwi bod Dylan yn edrych yn drist.

"Nid oes rhaid i ti deimlo'n wael, Dylan," meddai Rhiannon i'w galonogi. "Nid oeddet ti'n gwybod bod angen help ar bobl. Ti yw'r ddraig fwyaf caredig rwyf i erioed wedi'i chyfarfod. Rwy'n siŵr y byddi di'n gwneud llawer o bethau da i helpu pobl yn y dyfodol."

"Byddaf," meddai Dylan "Rwy'n mynd i feddwl yn galed iawn am sut gallaf i helpu, ac rwy'n mynd i wneud rhodd hefyd."

Mae Rhiannon yn gwenu arno'n falch. "Mae hynny'n garedig. Rwy'n credu y byddan nhw'n ddiolchgar iawn."

Wrth i Dylan hedfan adref, mae ganddo lawer ar ei feddwl. Mae wedi dysgu ei bod yn bwysig cynilo rhywfaint o'ch arian ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd wedi dysgu ei bod yn bwysig meddwl am bobl eraill weithiau a sut gallwn ni eu helpu. Mae'n edrych tuag at ei gartref hardd ac mae'n teimlo'n ddiolchgar iawn. (7)

1. Pa resymau gallwch chi feddwl amdanyn nhw dros gynilo? Pam dylem ni gynilo arian?
2. Cangen yw'r enw ar y gwahanol adeiladau y gallwch chi ymweld â nhw i dalu arian i'ch cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu. Pam ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n cael eu galw'n ganghennau? Beth mae cangen yn ei olygu fel arfer?
3. Ceisiwch gynnwys y dysgwyr mewn trafodaeth ynghylch defnydd a diffiniadau. 'Rydym ni wedi dysgu tri gair newydd. Adneuo, codi arian a balans. Ydym ni'n gwybod p'un yw p'un? Pa air sy'n golygu ychwanegu arian at eich cyfrif? Pa air sy'n golygu tynnu arian allan o'ch cyfrif? Os byddwch yn adneuo arian, a fydd eich balans yn uwch neu'n is?'
4. Ydych chi'n gwybod beth yw benthyciad? Mae benthyciad yn swm o arian sy'n cael ei fenthyg, i'w ad-dalu yn y dyfodol. Mae'n bosibl ad-dalu benthyciad y diwrnod canlynol neu'r flwyddyn nesaf. Mae modd ei ad-dalu bob yn dipyn dros nifer o flynyddoedd. Rhowch enghreifftiau i'r dysgwyr.
5. Ar gyfer beth fyddech chi'n cynilo?
6. Mae'r elusen hon yn helpu pobl nad oes ganddyn nhw ddigon o arian i brynu'r pethau sydd eu hangen arnyn nhw. Pa fath o bethau ydych chi'n meddwl y gallai'r elusen eu gwneud dros y bobl hyn? Pa fathau eraill o elusennau y gallwch chi feddwl amdanyn nhw a pham maen nhw'n bwysig?
7. Beth oedd ein barn chi ar stori Dylan? Mae wedi dysgu llawer. Beth ydym ni wedi'i ddysgu? Beth oeddech chi'n ei hoffi am y stori?